CYFRES B1

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Gwersi Beiblaidd o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Luc 10: 25-37

ADNOD
ALLWEDDOL
Luc 10: 27

Gwers 1 Damhegion – Pwy yw fy Nghymydog?

Pwy yw'ch cymydog chi? Y bobl sy'n byw yn eich stryd chi? Y bobl sy'n byw drws nesaf? Eich ffrindiau yn yr ysgol?

Gofynnodd rhywun y cwestiwn hwn i Iesu. Atebodd Iesu trwy adrodd dameg.

Roedd Iesu'n adrodd llawer o ddamhegion. Roedden nhw'n storïau syml am fywyd bob dydd ond roedden nhw'n cynnwys gwersi am Dduw.

C **Beth ddigwyddodd i'r dyn yn y ddameg ar ei ffordd i Jericho? Ticiwch yr ateb cywir.**

Syrthiodd i ffos ..... Ymosododd lladron arno .....

Doedd ganddo ddim digon o ddŵr ..... Fe aeth ar goll. .....

1

C **Disgrifiwch yn fanwl beth ddigwyddodd i'r teithiwr.**

2

Daeth tri dyn ar hyd y ffordd.

3

C Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i gael gwybod pwy oedden nhw.

DIEROAFfI AILDFE ASMDRAAI

_____ _____ _____

Roedd ymateb pob un o'r tri yn wahanol pan welsant y dyn wedi ei anafu ar ochr yr heol.

3

C Ysgrifennwch pwy oedd y dynion gyferbyn â'r hyn a wnaethant.

Mynd heibio o'r ochr arall. .....

Gweld y dyn a mynd heibio o'r ochr arall. .....

Mynd at y dyn a'i helpu. .....

Nid oedd yr Offeiriad na'r Lefiad (helpwr yn y Deml) yn gymdogion da i'r dyn oedd wedi brifo.

C Dangoswch sut roedd y Samariad yn gymydog da iddo trwy roi'r geiriau isod yn y lle cywir yn y paragraff.

gwesteiwr olew ddau ddarn arian gwin rhwymo lety anifail glwyfau

Aeth ato a __ _ _ _ _ ei _ _ _ _ _ _ _, gan arllwys _ _ _ _ a _ _ _ _ arnynt; gosododd ef ar ei _ _ _ _ _ _ _ ei hun, a'i arwain i'w _ _ _ _, a gofalu amdano. Trannoeth tynnodd __ _ _ __ _ _ _ _ _ _ _ _ allan a'u rhoi i'r _ _ _ _ _ _ _ _ _.

9

C Beth mae Iesu'n dweud wrthym ni am ei wneud i'n cymydog? Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a THANLINELLU yr ateb.

2

Dysgodd Iesu bod pawb y mae angen eich help arnynt yn gymydog i chi. Rydym yn dangos faint rydyn ni'n caru Duw pan fyddwn yn ufudd iddo ac yn dangos cariad at bobl eraill.

Mae'r 'Samariad Trugarog' yn dangos i ni sut y dylem ni garu pobl eraill.

C Beth allwch chi ei wneud i roi help llaw i bobl eraill? Ysgrifennwch eich syniadau rhwng y ddwy law.

Enw _____

DARLLENWCH
Luc 12: 13-21

ADNOD ALLWEDDOL
Luc 12: 15

Gwers 2 Damhegion – Y Ffermwr Cyfoethog

Beth yw'r peth pwysicaf yn eich bywyd chi? Efallai bod gennych rywbeth arbennig yr ydych yn meddwl y byd ohono neu efallai mai rhywun rydych yn ei nabod yw'r peth pwysicaf yn eich bywyd. Bob dydd, rydym yn gweld hysbysebion ar y teledu yn dangos teganau newydd neu beiriannau modern ac mae pawb yn yr ysgol eisiau cael y pethau hyn. Pa mor bwysig yw'r pethau hyn i chi? Dydi'r pethau hyn ddim yn para am byth ond mae Duw yn cynnig anrheg i ni sydd yn para am byth. Dyma'r trysor y mae'n ei roi i chi pan fyddwch yn credu yn Iesu Grist.

Dywedodd Iesu y ddameg hon fel rhybudd i bobl.

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol i gael gwybod beth oedd y rhybudd.

2

C Rhowch (✓) neu (✗) i ddangos a yw'r brawddegau isod yn GYWIR neu'n ANGHYWIR

Pysgotwr oedd y dyn. .....
Roedd y dyn yn gyfoethog. .....
Roedd y dyn yn meddwl amdano'i hunan trwy'r amser. .....
Roedd gwartheg gan y dyn. .....

4

C Pan gafodd y dyn gnwd da o'i fferm, gofynnodd gwestiwn iddo'i hunan. Ticiwch y cwestiwn cywir.

I bwy alla i roi'r cnwd sydd gennyf dros ben? .....
Beth wnaf i? Does gen i ddim unman i gadw'r cnwd. .....
Beth wnaf i â'r arian a gaf i ar ôl gwerthu'r cnwd? .....

1

C Llanwch y bylchau â'r llafariaid (a, e, i, o, u, w, y) i weld beth benderfynodd y dyn cyfoethog ei wneud.



2

C Sawl gwaith yn y Darlleniad o'r Beibl y dywedodd y ffermwr y geiriau "fi" neu "fy"? Ysgrifennwch eich ateb yn y blwch.



1

C **Ysgrifennwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth ddywedodd y ffermwr cyfoethog wrtho'i hunan pan oedd yn meddwl am y dyfodol.**

2

GRID GEIRIAU

I gael gwybod beth ddywedodd Duw wrth y dyn cyfoethog, llanwch y Grid Geiriau trwy roi pob llythyren yn y lle iawn yn y Grid. Er enghraifft, mae'r rhifau (8,3), sef sgwâr 8 ar draws a 3 i fyny, yn cyfeirio at y llythyren "A".

a: (1,3) (8,3) (6,2) (9,2) (2,1) (4,1) (7,1)
b: (1,1)
d: (8,6)
e: (2,7) (1,5) (6,5) (5,4) (4,2)
f: (6,8)
ff: (10,3)
g: (4,4) (7,3)
h: (1,7)
i: (5,6) (2,5) (4,5) (9,3) (8,1)
l: (2,4)
m: (1,6)
n: (5,8) (10,8) (3,7) (3,6) (4,6) (3,5) (10,5) (6,4) (7,4)
o: (4,7) (5,5) (1,4) (6,1)
p: (3,2)
ph: (3,3)
r: (2,8) (6,6) (3,1)
s: (7,5) (9,1)
t: (8,8) (9,4) (5,1) (10,1)
th: (5,2)
u: (7,2)
w: (4,3)
y: (1,8) (4,8) (7,8) (9,8) (6,7) (2,6) (9,6) (9,5) (8,4) (5,3) (1,2)



6

Y noson honno, bu farw'r dyn ffôl cyfoethog a bu'n rhaid iddo adael ei holl gyfoeth ar ei ôl. Roedd wedi paratoi i fyw am flynyddoedd lawer OND roedd wedi anghofio paratoi i gwrdd â Duw. Dywedodd Iesu y ddameg hon i ddangos pa mor ffôl ydym os ydym yn gadael Duw allan o'n cynlluniau.

Er bod y ffermwr hwn yn gyfoethog iawn, roedd yn dlawd yng ngolwg Duw.

C **Tanlinellwch ddwy o'r brawddegau isod sy'n dangos sut y gallwn fod yn gyfoethog yng ngolwg Duw.**

2

Credu yn yr Arglwydd Iesu.	Ennill llawer o arian.
Edifarhau am ein pechodau.	Rhoi ein hunain yn gyntaf.

Ni all bod yn gyfoethog ar y ddaear ein hachub ni. Rhaid i ni gredu yn yr Arglwydd Iesu a gofyn iddo faddau ein pechodau. Yna, bydd Duw yn rhoi trysor bywyd tragwyddol i ni.
"Y mae pechod yn talu cyflog, sef marwolaeth: ond rhoi yn rhad y mae Duw, rhoi bywyd tragwyddol yng Nghrist Iesu ein Harglwydd." (Rhufeiniaid 6:23)

Enw _____

DARLLENWCH
Marc 4: 1-20

ADNOD
ALLWEDDOL
Marc 4: 20

Gwers 3 Damhegion – Yr Heuwr

Roedd yn ddiwrnod braf ac roedd llawer o bobl wedi dod i le hardd ger Môr Galilea. Roedden nhw eisiau clywed Iesu'n siarad. Wrth iddyn nhw wthio'n nes ac yn nes, gofynnodd Iesu i un o'r pysgotwyr am gael benthyg ei gwch. Pan oedd Iesu yn y cwch, roedd pawb yn gallu ei weld a'i glywed. O'r cwch, efallai ei fod yn gallu gweld heuwr yn hau yn y caeau.

C Yn eich geiriau eich hunan, disgrifiwch y pedwar math o dir lle syrthiodd yr hadau a'r pedwar gwahanol beth y dywedodd Iesu oedd wedi digwydd i'r hadau. Bydd y lluniau yn eich helpu.

(Adnod 4)



(Adnodau 5 a 6)

(Adnod 7)

(Adnod 8)

8

Dywedodd Iesu fod y ddameg yn bwysig iawn. Doedd y disgyblion ddim yn deall yr ystyr yn iawn ac fe wnaeth Iesu esbonio'r ystyr iddyn nhw.

C Ysgrifennwch lythyren gyntaf pob un o'r pethau hyn i weld beth ddywedodd Iesu oedd yr hadau yn sefyll drosto.



_____ _____ _____ _____ _____ _____ _____

1

Dyma ffordd arall o ddisgrifio'r Beibl. Pan rydyn ni'n darllen neu'n clywed rhywbeth o'r Beibl, mae fel pe bai hedyn yn cael ei hau yn ein meddyliau a'n calonnau.

Weithiau, pan fyddwn wedi gwrando, mae'r hedyn, neu'r Gair, yn cael ei ddwyn oddi arnom.

C **Ysgrifennwch ger yr aderyn pwy sy'n dwyn Gair Duw o'n meddyliau a'n calonnau.**



1

POS GEIRIAU

I ddysgu am y math nesaf o dir, llanwch y geiriau coll a rhoi cylch amdanynt yn y Pos Geiriau. Mae'r geiriau'n rhedeg ar draws, i fyny, i lawr ac ar letraws.

Syrthiodd peth o'r had ar dir _ _ _ _ _ _ _ _.

lle na chafodd fawr o _ _ _ ___.

Tyfodd yn _ _ _ _ _ _ am nad oedd iddo

ddyfnder _ _ _ _ _.

Cafodd ei losgi yn yr haul ac am nad oedd iddo

_ _ _ _ ___ _ _, fe _ _ _ _ ___.

DD	O	W	Y	W	C
G	R	DD	I	R	B
O	Y	R	E	E	P
I	E	F	A	I	P
G	D	M	L	DD	O
I	R	H	L	Y	T
E	E	G	N	N	M
R	A	E	A	D	M
C	A	B	R	O	A

6

Roedd Iesu eisiau i'r disgyblion ddeall bod rhai pobl yn frwd iawn eisiau ei ddilyn ar y dechrau ond eu bod nhw'n ei adael pan fydd y problemau'n dechrau dod. Mae'r trydydd math o ddaear yn sefyll dros bobl sy'n gwrthod rhoi lle i'r Beibl nac i Iesu yn eu bywydau.

C **Edrychwch ar adnodau 18 ac 19 a rhoi ✓ neu ✗ i ddangos pam na wnaeth y bobl hyn ymateb i Air Duw:-**

Roedd ganddyn nhw ormod o bethau i boeni amdanyn nhw .....

Doedden nhw ddim wedi clywed Gair Duw .....

Roedden nhw'n meddwl gormod o'u harian a'r pethau eraill oedd ganddynt .....

3

Felly mae Gair Duw yn cael ei 'dagu' yn eu bywydau ac nid yw'n gwneud gwahaniaeth iddynt. Daeth y cynhaeaf go iawn o'r math olaf o dir.

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol i weld beth y mae'n rhaid i ni ei wneud i weld effaith Gair Duw yn ein bywydau.**

1

Mae pawb yn ymateb i Air Duw mewn rhyw ffordd. Ond dim ond wrth i ni ddarllen Gair Duw, gwrando arno a cheisio dilyn Iesu y bydd 'cynhaeaf' da i Dduw yn ein bywydau. Pa mor aml ydych chi'n darllen y Beibl? Pa fath o dir ydych chi?

Enw _____

DARLLENWCH
Matthew 18: 21-35

ADNOD
ALLWEDDOL
Effesiaid 4: 32

Gwers 4 Damhegion – Maddau i Bobl Eraill

Pa mor hawdd yw maddau i bobl eraill? Mae'n haws maddau rhai pethau na phethau eraill.

C Ticiwch y peth y byddech chi'n cael y drafferth fwyaf i'w faddau.

Pe bai fy ffrind yn dwyn fy nghrisps. .....
Pe bai fy ffrind yn galw enwau arna i o flaen pawb. .....
Pe bai fy ffrind yn torri addewid. .....
Pe bai fy ffrind yn cweryla gyda mi. .....

Mae Duw yn barod i faddau'r pethau drwg rydyn ni'n eu gwneud. A ddylen ni fod yn barod i faddau i bobl eraill pan fyddan nhw'n gwneud pethau drwg i ni? Gofynnodd Pedr yr un cwestiwn i Iesu.

C Edrychwch ar y rhifau hyn:

7 77 777 70 x 7 70

Rhowch gylch o gwmpas un o'r ffigurau i ddangos sawl gwaith yr oedd PEDRYN MEDDWL y dylai faddau i'w frawd.

2

Esboniodd Iesu y dylem ni faddau llawer mwy o weithiau na saith gwaith, ac adroddodd ddameg arall i helpu Pedr i ddeall.

C Beth oedd y brenin yn ei wneud yn y ddameg pan ddaeth rhywun â'r gwas ato. Ticiwch ✓ yr ateb cywir.

Roedd mewn gwledd. .....
Roedd yn adolygu'r cyfrifon. .....
Roedd wedi mynd i weld brenin arall. .....

1

C Ticiwch ✓ yr ateb cywir i ddangos faint o ddyled oedd ar y gwas i'r brenin.

Swm bychan.

Swm mawr. 

1

C Roedd y gwas yn methu talu'r ddyled. Beth oedd y brenin yn bwriadu ei wneud i'w gosbi? Llanwch y llythrennau coll – a, e, i, o , u, w, y

R_ _f _m d_ w_rth_ d_ _'th
wr_ _ g _'th bl_nt _ ph_p_th s_dd
g_nn_ch _r m_ _ n t_l_'r dd_l_d.

3

Dos i'r carchar nes i ti dalu dy ddyled.
Rwy'n maddau i ti. Fe gei di fynd yn rhydd.
Fe gei di dri mis i dalu.

1

C Tanlinellwch uchod beth ddywedodd y brenin wrth y gwas pan ofynnodd hwnnw am ragor o amser i dalu.

C **Beth wnaeth y gwas i'r gwas arall oedd â dyled fach iddo? Dilynwch y saethau i lawr ac i fyny'r colofnau llythrennau ac ysgrifennu'r ateb ar y llinellau.**

→ c	dd→ f	a →m			
y	w	a	o	d	d
d	i	d	th	a	e
i	e	w	r	l	l
o	n	e	w	u	y
dd→	y	u→	d	r→	dd

_ _ _ _ _ _ / _ _ /_ _ /_ _ _ _ / _ /_ _ _ _ _ /
_ _ _ _ / _ _ / _ _ _ _ ' _ / _ _ _ _ _

3

C **Pan ofynnodd y gwas arall i'r dyn am ragor o amser i dalu, beth ddywedodd y dyn? Ticiwch yr ateb cywir:-**

Gei di dri mis i dalu. ☐ Cer i'r carchar nes y galli di dalu ☐

Paid â phoeni, rwy'n maddau i ti. ☐

1

C **YSGRIFENNWCH YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN pam roedd y brenin yn ddig iawn wrth y dyn roedd e wedi maddau iddo.**

3

Anfonodd Duw ei Fab, yr Arglwydd Iesu, i farw ar y groes fel y gallai faddau i ni. Os oedd yn costio cymaint â hynny i Dduw faddau i ni, oni ddylem ni fod yn barod i faddau i bobl eraill? Os na wnawn ni hynny, rydym fel y gwas yn y ddameg hon sy'n gwrthod maddau i'r gwas arall er bod y brenin wedi maddau iddo fe.

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol i ddysgu beth y mae Duw yn ei ddisgwyl oddi wrth y rhai y mae Ef wedi maddau iddyn nhw.**

2

C **Dydi hi ddim yn hawdd maddau i bobl eraill. Mae'r goleuadau traffig yn dangos i chi beth i'w wneud os bydd plentyn arall yn cweryla â chi. Mae'r geiriau wedi'u hysgrifennu o chwith. Ysgrifennwch nhw yn gywir yn y bylchau.**



O I P O T S / A L Y R E W C
_ _ _ _ _ _ / _ _ _ _ _ _ _

I O T A R A P / I / O I DD E W
_ _ _ _ _ _ _ / _ / _ _ __ _ _

U A R CH E D / D U E W D / N ' Y W R /
_ _ _ __ _ _ / _ _ _ _ _ / _ _ _ _ _ /

U A DD A M / I / I T
_ _ __ _ _ / _ / _ _

3

cyfanswm

Marciau
[i'w nodi gan yr athro]

Cyfanswm

Cyfanswm llawn

SAFON 3 B1

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4 a 15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120